

# Arolygu Carchar Brynbuga a Charchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed



Fe wnaeth arolygwyr ymweld â'r carchardai yma ym mis Mai 2025.



Roedden ni eisiau gwybod a oedd pethau'n well, yr un fath, neu'n waeth i garcharorion ers i ni ymweld ddiwethaf yn 2021.



I wneud hyn, roedd yr arolygwyr yn:

- edrych o gwmpas y carchardai
- gofyn i garcharorion a staff lenwi holiadur ar bapur
- siarad â charcharorion
- siarad â staff a chynorthwywyr
- darllen dogfennau.

# Beth welson ni yn CEF Brynbuga?



**Diogelwch: 4 allan o 4**

- Roedd y carcharorion yn teimlo'n saff.
- Ychydig iawn o drais oedd yma, a doedd dim llawer o gyffuriau.



**Parch: 4 allan o 4**

- Roedd carcharorion a staff yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd.
- Roedd y carchar yn lân ac yn daclus.



**Pethau i'w gwneud: 4 allan o 4**

- Roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn cael llawer o amser allan o'u celloedd.
- Roedd y rhan fwyaf o garcharorion mewn addysg neu'n gweithio am y rhan fwyaf o'r diwrnod.



**Paratoi i adael y carchar: 4 allan o 4**

- Roedd carcharorion yn cael help da i baratoi i adael y carchar.

# Beth welson ni yng Ngharchar/ Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed?



**Diogelwch: 4 allan o 4**

- Roedd carcharorion yn teimlo'n saff.
- Ychydig iawn o drais oedd yma, a doedd dim llawer o gyffuriau.



**Parch: 4 allan o 4**

- Roedd carcharorion a staff yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd.
- Roedd rhai rhannau o'r carchar yn fudr.



**Pethau i'w gwneud: 3 allan o 4**

- Roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn cael llawer o amser allan o'u celloedd.
- Roedd gan y rhan fwyaf o garcharorion swyddi. Ond doedd gan rai carcharorion ddim digon i'w wneud yn eu swyddi.



**Paratoi i adael y carchar: 4 allan o 4**

- Roedd carcharorion yn cael help da i baratoi i adael y carchar.

# Beth ddylai'r carchar ei wneud?




Rydyn ni eisiau i'r llywodraethwr ddarllen yr adroddiad rydyn ni wedi'i ysgrifennu am Garchar Brynbuga a Charchar/ Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed. Rydyn ni eisiau i'r llywodraethwr wneud cynllun i ddatrys y nifer fach o broblemau a welson ni yn y carchardai.




Mae'r adroddiad ar gael yn llyfrgell y carchar.


# Beth ydyn ni eisiau ei weld yn digwydd?




Rydyn ni eisiau i garcharorion ym Mhrescoed gael digon i'w wneud yn eu swyddi.




Rydyn ni eisiau i garcharorion ym Mhrescoed allu cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro yn gynt.



Rydyn ni eisiau i bob adain ac ardal y tu allan ym Mhrescoed fod yn lanach.



Rydyn ni eisiau i staff ym Mhrescoed gerdded o amgylch yr adeiniau’n amlach a siarad â charcharorion.



Rydyn ni eisiau i geginau a mannau coginio carcharorion ym Mhrescoed fod yn well. Rydyn ni eisiau i ddynion allu dysgu sgiliau coginio.



Rydyn ni eisiau i staff wirio a ydy carcharorion yn mynd i apwyntiadau iechyd a chlinigau.




Rydyn ni eisiau i garcharorion gael y feddyginiaeth iawn.




Rydyn ni eisiau i garcharorion ym Mhrescoed allu defnyddio'r ffôn pan mae angen. Rydyn ni eisiau iddyn nhw allu siarad ar y ffôn yn breifat.

## Beth fyddwn ni’n ei wneud?



Byddwn ni’n dod yn ôl mewn ychydig o flynyddoedd i weld pa mor dda mae’r carchar ei wneud. Byddwn yn ysgrifennu adroddiad i ddweud wrth bobl beth fyddwn ni wedi ei ganfod.



Os oes gennych chi gwestiynau, ysgrifennwch atom:

HM Inspectorate of Prisons
3rd floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU